

Y Groglith

Darllen: Luc 23: 44–46

Bellach, mae'r daith a gychwynnodd ym mrynau Galilea yn prysur ddirwyn i ben. Troes dysgeidiaeth gyson Iesu ynglŷn â chodi'r groes a'i ganlyn ef yn ffaith weladwy wrth i Simon o Cyrene gael ei orfodi i gario'i groes. Mae'r hwn a fynnodd, gydol ei weinidogaeth, ei fod wedi dod i alw pechaduriaid i edifeirwch yn cael ei groeshoelio rhwng dau derfysgwr. Mae'r trawsbren a gariodd Simon yn cael ei gysylltu â'r pren fertigol gyda pheg pren, a Iesu'n cael ei hoeilio arno. Tarddodd y dull hwn o ddienyddio o Bersia, ac fe'i mabwysiadwyd gan y Rhufeiniaid i gosbi gwrthryfelwyr. Prin yw adroddiadau'r efengylau am erchyllterau'r math hwn o ddienyddio, ond maent yn cofnodi geiriau Iesu yn ystod ei wewyr a'i artaith. O edrych ar adroddiadau'r efengylau am y Croeshoelio gyda'i gilydd, gwelir fod Iesu wedi llefaru o leiaf saith o weithiau oddi ar y groes. Gofynnodd i Dduw faddau i'w erlidwyr; addawodd baradwys i un terfysgwr; a chofiodd am ei fam a'i rhoi yng ngofal Ioan. Yng nghanol y frwydr fawr dyfynnodd o Lyfr y Salmau, 'Fy Nuw, fy Nuw pam yr wyt wedi fy ngadael?' (Salm 22:1), ac yna cofiodd am ei angen ei hun, 'Y mae arnaf syched' (Ioan 19:28). Ond mae'r frwydr yn cyrraedd ei hanterth gyda'r geiriau gorfoleddus, 'Gorffennwyd' (Ioan 19:30) ac 'O Dad, i'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd' (Luc 23:46). Mae'r daith wedi'i chyflawni a'r fuddugoliaeth yn llwyr. Nid cri o anobaith oedd geiriau olaf Iesu ond cadarnhad o ymddiriedaeth ffyddlon i'r diwedd. Er bod Iesu wedi ei draddodi i ddwylo dynion mae'n ei gyflwyno ei hun i ddwylo Duw. Barn y canwriad a safai wrth droed y groes oedd mai dyn cyfiawn oedd hwn. Er ei fod yn gorfforol wan, roedd Iesu'n gryf; ac er ei fod yng nghanol llygredd a phechod dyn mae'r un cyfiawn hwn yn gorchfygu. A llwyddodd y canwriad Rhufeinig, caled i gyhoeddi mai dieuog oedd y gŵr hwn.

Cyn gadael gwewyr Golgotha, mae'n werth cofio bod y gwragedd wedi aros yno i wyllo'r erchyllterau. Roedd y rhain wedi dilyn Iesu o Galilea. Ac yn awr, gan sefyll o hirbell, maent yn dystion o'r diwedd. Yn ôl pob hanes, roedd Mair ei fam yno'n gwyllo. Ioan yw'r unig un o'r disgyblion

sydd yno. Mae tystiolaeth y criw bach hwn yn allweddol i weddill y stori. Gwelsant Iesu'n marw ar y groes, ac mae'r gwragedd yn dilyn Joseff o Arimathea: 'Fe ddilynodd y gwragedd oedd wedi dod gyda Iesu o Galilea, a gwelsant y bedd a'r modd y gosodwyd ei gorff' (Luc 23:55). Roedden nhw'n bresennol, ac felly'n allweddol i dystiolaeth y trydydd dydd. Myfyriwn ar eiriau Iesu ar y groes.

Myfyrdod pellach:

Sut mae Croes Crist yn cyffwrdd â ni heddiw? Beth mae'r geiriau a lefarodd Iesu ar y groes yn ei ddweud wrthyn ni?

Beth ydi ystyr 'codi'r groes' i'r Cristion heddiw?

Y Groglith

Darllen: Luc 23:42–43

Yn ôl traddodiad, Dismas a Gesmas oedd enwau'r ddau derfysgwr a groeshoeliwyd gyda Iesu ar Galfaria. O adnod gyntaf Efengyl Mathew hyd adnod olaf Efengyl Ioan, dim ond un sy'n galw Iesu wrth ei enw cyntaf yn unig, a Dismas oedd hwnnw, 'Iesu, cofia fi pan ddoi i'th deyrnas' (Luc 23:42). Awgrymodd rhai bod Dismas yn adnabod Iesu'n dda, yn hanu o'r un ardal ag ef ac yn ffrind bore oes iddo am ei fod yn dweud amdano, 'Ond ni wnaeth hwn ddim o'i le' (Luc 23:41). Mae Dismas hefyd yn crybwyll y gair 'teyrnas', gair oedd ar wefusau Iesu'n aml. Tybed oedd o wedi clywed Iesu'n sôn am y deyrnas hon, a'i fod yntau fel Jwdas wedi cefnu ar y deyrnas anymarferol hon? Tybed oedd yntau fel Jwdas wedi clywed digon o sôn am egwyddorion y deyrnas hon, a'i fod eisiau gweld Iesu'n gweithredu er mwyn dymchwel y gorthrwm mawr, sef grym yr Ymerodraeth Rufeinig?

Tybed beth wnewch chi o'r traddodiad hwn am Dismas? Yr hen enw arno oedd y 'lleidr edifeiriol'. Ond os oes unrhyw wirionedd i'r traddodiad, nid dyna'r cyfan y gallwn ei ddweud amdano. Yn ôl y traddodiad, nid lleidr yn unig oedd Dismas ond terfysgwr, yn union fel Barabbas. Roedd yntau'n rheibiwr a dinistriwr, yn enw rhyddid cenedlaethol. Anelai ei holl gynddaredd at Rufain. Mewn un ffordd, rhannai â Iesu'r weledigaeth o weld teyrnas newydd yn gwawrio. A beth am 'edifeirwch' Dismas? Yn ôl Luc, sy'n cofnodi'r digwyddiad, 'I ni, y mae hynny'n gyfiawn, oherwydd haeddiant ein gweithredoedd sy'n dod inni' (Luc 23:41). Ond mae'r traddodiad am i ni gredu nad oes arwydd o edifeirwch yn y geiriau hyn, gan mai 'am ein gweithredoedd' a ddywedir, ac nid 'am ein pechodau'. Roedd Dismas yn chwennych teyrnas trwy rym, a Iesu'n ei chwennych trwy gariad. Doedd dim amser i ddisgwyl. Roedd ffordd cariad yn rhy oddefgar, anymarferol ac araf. Ond ar Galfaria, yn ei boen a'i artaith, fe welodd Dismas rym anorchfygol na fedrai hyd yn oed farwolaeth ei orchfygu, 'Cofia fi pan ddoi i'th deyrnas'. Ac mae'n cael ateb gan yr arbenigwr ei hun, 'Yn wir, rwy'n dweud wrthyf, heddiw byddi gyda mi ym Mharadwys' (Luc 23:43). Mae yma bendantrwydd. Does yna ddim

‘os’ nac ‘ond’ na ‘neu’.

Pwy ydi'r Dismas hwn? Chi a fi. Rydyn ni i gyd yn chwennych rhyw fath o deyrnas – teyrnas cyfoeth, hapusrwydd, sicrwydd neu bleser. Beth am y deyrnas o berthynas rhwng dyn a Duw, a rhwng dyn a'i gyd-ddyn, lle gallwn ar fore'r Groglith edrych ar Dduw a dweud, 'Tad', ac edrych i lygad cyd-ddyn a dweud, 'Frawd' neu 'Chwaer'? Felly y mae gwasanaeth anhunanol yn allwedd i hapusrwydd, a phenllanw hyn yw'r teimlad o lawenydd o fod yn un â Duw am ein bod yn ceisio ei ewyllys Ef. Dilyn y llwybr anghywir a wnaeth Dismas gydol ei fywyd, ac yna ar yr unfed awr ar ddeg mae'n gweld am y tro cyntaf. O'i groes ar y Groglith, mae Iesu'n galw arnoch chi, mae'n pledio â chi, ac mae'n mynd ymhellach trwy gynnig rhan i chi yn ei gynllun mawr. Mae'n disgwyl am ymateb, nid ymateb llugoer o gyrion y dorf ond ymateb cadarnhaol. 'Heddiw byddi gyda mi ...'

Myfyrdod pellach:

O'r hyn sydd gan Luc i'w ddweud ceisiwch greu darlun o gymeriad Dismas.

O ran ateb Iesu i Dismas, beth ydi ystyr 'paradwys'?

Y Groglith

Darllen: Mathew 27:40

Mae hwn yn gwestiwn digon naturiol. Pwy oedd ar y Groes? Y dyn oedd wedi gostegu'r storm ar Lyn Galilea. Y dyn oedd wedi gwella'r cleifion, wedi bwydo'r miloedd ac wedi codi'r meirw. Dyma pwy oedd ar y Groes. Dim ond iddo wneud un wyrth anhygoel arall byddai'r cwbl yn tanseilio awdurdod y Sanhedrin ac yn gwneud sbort am ben yr Ymerodraeth Rufeinig! A mwy na hynny, byddai miloedd ar filoedd yn ei ddilyn. 'Os Mab Duw wyt ti ... disgyn oddi ar y groes'.

Cwestiwn digon rhesymol gan un o'r dyrfa. Pam na wnaeth o ddod i lawr oddi ar y groes os oedd y gallu ganddo? Wrth geisio ateb y cwestiwn hwn plymiwn i ddirgelwch Calfaria. Fedrai Iesu ddim dod oddi ar y groes. Roedd yr hoelion, y picellau a drywanwyd i'w gorff – i'w ddwylo a'i draed – yn ei ddal ar y groes. Ond na! Nid hoelion y Rhufeiniaid oedd yn dal Iesu ar y groes, ond pwrpas Duw ei hun. Roedd perthynas Iesu â'r groes yno o'r dechrau, cyn i Caiaffas a'r Sanhedrin ei ddedfrydu, cyn i Pilat ei draddodi a chyn i'r proffwydi sôn amdano. Nid digwyddiad hanesyddol yn unig ydi Calfaria, ac eto dyma'r eiliad yr oedd yr holl greadigaeth yn symud tuag ati. Roedd Iesu'n cael ei ddal ar y groes gan bŵer deinamig Duw ei hun – sef cariad Duw at ddyn. Am un eiliad, safwch chi yno a syllwch ar y groes. Tynnwch holl gymeriadau Calfaria oddi yno – y gwylwyr a'r gwragedd – ac arhoswch chi yno. Byddai Iesu wedi aros yno er eich mwyn chi. Ie, chi yr unigolyn. Dyna hyd a lled a dyfnder cariad Duw tuag atoch. Dyma ddarlun bendigedig o werth yr unigolyn. Rydych chi'n cyfrif. Mae Iesu wedi mynd i'r groes, ac wedi aros yno, er eich mwyn chi.

Beth petai'r gwragedd a'r disgyblion wedi casglu eu ffrindiau a thrigolion Nasareth at ei gilydd ac wedi ceisio ei dynnu i lawr oddi ar y groes? Beth fyddai wedi digwydd? Byddai wedi aros yno, a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, o'i fodd yr aeth i'r groes. Hawdd iawn fyddai iddo osgoi'r groes. Doedd dim rhaid iddo fynd i Jerwsalem; byddai wedi gallu aros yng Ngililea a chrwydro'r wlad gyfagos yn dysgu egwyddorion y deyrnas. O'r

bedydd yn nyfroedd yr Iorddonen, ac ar hyd ei weinidogaeth, uniaethodd Iesu â phechaduriaid. Nhw oedd ei bobl. Fe'u dewisodd nhw'n ddisgyblion iddo. Bu'n eu dysgu, eu hiachau a'u hyfforddi; a bu farw rhwng dau ohonynt ar Galfaria. Bu farw dros bechaduriaid.

Soniodd hefyd am ei awr. Nid awr Caiaffas, Annas, Pilat, y Sanhedrin na'r Rhufeiniaid oedd Calfaria, ond awr Duw. Nid dyn yn cael ei dynnu at y groes yn erbyn ei ewyllys gan ddynion drwg a gawn yn yr efengylau. Yr hyn a gawn yw Iesu, Fab Duw, yn dewis y groes. Gallai'n hawdd fod wedi cerdded llwybr arall. Concrodd hyn yn yr anialwch pan gafodd ei brofi, a gadawodd yr anialwch yn goncwerwr a mynnu cerdded llwybr Duw, llwybr a arweiniai ar hyd y *Via Dolorosa*, Ffordd y Gwaed a arweiniai i Galfaria. Hon oedd awr Duw, gan fod Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun. Dyma ateb Duw i bechadur – i chi.

Myfyrdod pellach:

Oni fyddai Iesu wedi gwneud mwy o ddaioni petai wedi osgoi Calfaria?

Beth am y cysyniad o Iesu'n marw yn ein lle?